# IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 20 Ebrill 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Sparks** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Pursey, M.John, M.Tierney, R.James, E.Schiavone, P.Black, M.White a/ac W.Lewis |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, O.Enoch, N.Pearce, C.Morris a/ac C.John |

1. **WELCOME**

   Cyflwynodd y Cadeirydd y Pwyllgor a rhoddwyd croeso iddynt.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

5. **GOHEBIAETH GAN Y PWYLLGOR CRAFFU I GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL**

   Hysbyswyd yr aelodau am yr ohebiaeth rhwng Cadeiryddion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru - Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd hyn o ganlyniad i gyfarfod blaenorol o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023 lle

amlygodd aelodau eu barn a'u pryderon, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Croesawodd yr aelodau'r cynnig gan Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i fynychu cyfarfod craffu yn y dyfodol a darparu sicrwydd pellach. Cytunodd y pwyllgor y byddai'n caniatáu amser i newidiadau posib ddigwydd yn y lle cyntaf ac y byddai'n croesawu'r Cadeirydd i fynychu cyfarfod craffu yn y dyfodol, o fewn y 6 mis nesaf.

## 6. CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL DE-ORLLEWIN CYMRU

Diweddarwyd yr aelodau ynghylch gydrannau a chamau allweddol y Cynllun Datblygu Strategol (CDS); yr opsiynau ar gyfer cyflawni'r rhaglen waith; y materion a risgiau presennol; a throsolwg o'r astudiaethau sylfaen dystiolaeth cydweithredol a gynhaliwyd ar draws De-orllewin Cymru, fel a fanylwyd o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau am gymhlethdodau Creu Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol tra y byddai cynghorau lleol yn datblygu eu Cynllun Datblygu Lleol. Roedd pryderon y gallai hyn achosi dyblygiad , yn ogystal â defnyddio llawer o adnoddau oherwydd cymhlethdodau creu'r cynlluniau yn gydlynol.

Gofynnodd aelodau am y rheswm pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dewis i'r cynlluniau gael eu cwblhau yn y ffordd hon wrth symud ymlaen. Roedd aelodau'n pryderu y byddai hyn yn ddwys o ran adnoddau i swyddogion, heb unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi'r broses. Esboniodd aelodau y byddai cymhlethdodau/materion clir yn codi o'r Cynllun Datblygu Lleol, y gellir ymdrin â nhw ar lefel ranbarthol. Amheuwyd mai dyma'r rheswm pam yr oedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn datblygu'r cynlluniau yn y ffordd hon wrth symud ymlaen.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai unrhyw gyfranogaeth gan y Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â chraffu. Nodwyd, yn gyfreithiol roeddent yn y broses o gyfethol cynrychiolwyr o'r ddau Barc Cenedlaethol ar y Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

7. **DIWEDDARIAD AM STRATEGAETH YNNI DE-ORLLEWIN CYMRU**

Rhoddwyd y diweddaraf i aelodau ynghylch y datblygiadau ar draws yr agenda ynni ranbarthol, yn unol â Chynllun Corfforaethol (Cynllun Gweithredu) y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2023, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod cymhlethdodau gyda fersiwn gyhoeddedig y cynllun gweithredu atodedig yn Atodiad C yr adroddiad a ddosbarthwyd. Gofynnwyd i hyn gael ei drafod eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd aelodau fod grant o £350,000 wedi'i ddarparu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ganiatáu ar gyfer cynnal proses gofyniad, ac i helpu i gyflymu cynlluniau lleol a rhanbarthol a chydlynu cyflenwi.

Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â chynllun Llywodraeth Cymru i gael targed carbon sero-net y bydd holl awdurdodau lleol Cymru'n rhan ohono ac yn ei gyflawni erbyn 2030. Mynegodd aelodau eu pryderon mewn perthynas â graddfa'r buddsoddiad sydd ei hangen i gyrraedd y targed hwn a'r cyflymdra o gyflawni hyn o fewn y 7 mlynedd nesaf. Nodwyd y byddai hyn yn anodd ac yn gostus iawn.

Yn dilyn trafodaethau, teimlodd aelodau ei bod yn bwysig anfon llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn mynegi'r pryderon a fanylwyd o fewn yr eitem hon.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

8. **BLAENRAGLEN WAITH**

Rhoddodd swyddogion y diweddaraf i'r aelodau am y Flaenraglen Waith. Nodwyd y byddai gan aelodau gyfle i ychwanegu at Flaenraglen Waith 2023/2024 yn ystod Sesiwn Flaenraglen Waith yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau i'r Cynllun Gweithredu Ynni gael ei gynnwys yn y Flaenraglen Waith a'i drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

9. **EITEMAU BRYS**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**CADEIRYDD**